The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Cysylltiad Gogledd Cymru |
| **Cyfeirnod ffeil** | EN020015 |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 20 Mehefin 2018 |
| **Cyfarfod â** | National Grid |
| **Lleoliad** | Temple Quay House, Bryste |
| **Amcanion y cyfarfod** | Diweddariad ar y prosiect |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd**

**Cyflwyniad**

Cyflwynodd National Grid (yr Ymgeisydd) a'r Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) eu hunain a'u rolau priodol. Amlinellodd yr Arolygiaeth ei pholisi ar fod yn agored a sicrhawyd fod y sawl a oedd yn bresennol yn deall y bydd unrhyw faterion a drafodir a chyngor a roddir yn cael eu cofnodi a'u gosod ar wefan yr Arolygiaeth o dan a51 Deddf Cynllunio 2008 (DC2008). Ar ben hynny, eglurwyd na fydd unrhyw gyngor a roddir yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r National Grid (neu eraill) ddibynnu arno.

**Diweddariad ar y Prosiect**

Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn bwriadu cyflwyno ei gais ym mis Medi 2018. Mae wedi cynnal trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â pha ganiatadau na ellir eu cynnwys yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO). Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cynnwys opsiynau yn y cais o hyd. Mae'n gobeithio datrys hyn cyn i'r Archwiliad ddechrau.

Dywedodd yr Ymgeisydd y bydd yn cynnwys adran yn yr Adroddiad Ymgynghori i esbonio pam y cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi rhoi cylchlythyr i'r gymuned yn ddiweddar i sicrhau ei bod yn llwyr ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ynglŷn â'r prosiect. Dywedodd yr Ymgeisydd fod dyddiad cau mewnol wedi'i bennu ar gyfer cyflwyno sylwadau ar y cynigion cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau'n derfynol i'w gyflwyno i'r Arolygiaeth. Ni fydd unrhyw sylwadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw'n cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori, ond byddant yn cael eu hystyried gan yr Ymgeisydd o hyd.

Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn ystyried cynnwys hyblygrwydd dylunio yn y DCO. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu dilyn y llinell bresennol, ond o ganlyniad i archaeoleg anhysbys ar Ynys Môn, esboniodd yr Ymgeisydd y gallai fod angen i leoliad y peilonau

newid. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn cynnal gwaith archwilio tir mewn mannau lle mae olion archaeolegol yn fwyaf tebygol o fodoli. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i sicrhau bod y Datganiad Amgylcheddol yn asesu'r sefyllfa waethaf a chyfiawnhau pam mae angen hyn yn y cais. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i ystyried ffotogyfosodiadau a sut y byddai unrhyw newidiadau i leoliad peilonau'n effeithio ar wahanol dderbynyddion. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i ystyried sut y gallai liniaru unrhyw effeithiau posibl ar archaeoleg.

Dywedodd yr Ymgeisydd, yn dilyn y Dyfarniad diweddar (People over Wind & Sweetman v Coillte Teoranta), y bydd yn adolygu a diweddaru ei Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Dywedodd yr Ymgeisydd fod rhai arolygon ecolegol yn mynd rhagddynt, ond nad yw'n gallu cael mynediad i rai safleoedd. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i gyfiawnhau pam mae'n credu bod y Datganiad Amgylcheddol yn gyflawn os nad yw arolygon wedi cael eu cwblhau.

Dywedodd yr Ymgeisydd, pe byddai'r DCO yn cael ei roi, y bydd Scottish Power yn gwneud rhywfaint o waith dibwys ar linellau foltedd is a fydd yn sbarduno'r DCO ac yn golygu bod angen, er enghraifft, Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP), a fyddai'n amhriodol ar gyfer lefel y gwaith y byddent yn ei wneud. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd y gallai hyn gael ei ddatrys trwy ddrafftio'r DCO yn ofalus, yn enwedig y gofynion sy'n ymwneud â'r CEMP. Dylai'r ymagwedd a'r hyblygrwydd a geisir gan yr Ymgeisydd gael eu hamlinellu'n eglur yn y Memorandwm Esboniadol.

Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn ymwybodol o nifer fach o feddianwyr tir o fewn y ffin llinell goch, ond nad yw'n sicr o'u hawliau cyfreithiol dros y tir (gwnaed sawl ymgais i gael y wybodaeth hon). Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu eu cynnwys yn y Llyfr Cyfeirio fel unigolion Categori 1 ar sail ragofalus. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i esbonio'r ymagwedd hon yn ei Ddatganiad o Resymau a / neu Adroddiad Ymgynghori.